Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Disgrifiad Swydd: Swyddog Cynorthwyol PGI Dros Dro

**Sefydliad**
Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sydd yn gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw cefnogi datblygiad diwydiant cig coch Cymru sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol, sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau marchnad sy'n newid drwy'r amser.

Mae'r sefydliad yn cyflogi tua 25 o staff o fewn y rhiant-gorff, gyda 25-30 o staff ychwanegol yn cael eu cyflogi gan ein his-gwmni. Mae'r naill endid a'r llall yn gweithredu'n ddwyieithog ac mewn partneriaeth glos â rhanddeiliaid ar draws y sectorau amaethyddol, bwyd a pholisi cyhoeddus. Fel corff cyhoeddus Cymreig, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg, ac i gynnal y safonau uchaf o lywodraethu, lles y gweithlu a diwylliant sefydliadol.

**Trosolwg o'r Swydd**
Gan adrodd i'r Rheolwr Strategaeth a Pholisi'r Dyfodol, mae'r rôl hon yn darparu cefnogaeth i weinyddu cynllun dynodiadau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Mae HCC yn gweithredu fel gwarcheidwad y dynodiadau.

Mae hon yn rôl ar lefel mynediad sy'n addas ar gyfer graddedigion diweddar neu ôl-raddedigion cyfredol sy'n awyddus i ddatblygu profiad yn sector y gadwyn gyflenwi cig coch.

Fel aelod o dîm, mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod gwarcheidiaeth y sefydliad o'r ddau ddynodiad yn cael ei chefnogi trwy gydlynu effeithiol â darparwyr gwasanaeth ardystio sydd â chontract o dan y Cynllun.

O fewn y rôl, efallai y bydd gofyn hefyd i gefnogi cydweithwyr eraill ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod prosiectau a rhaglenni unigol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

**Y prif elfennau atebolrwydd a chyfrifoldeb**
**Cefnogi Dynodiad PGI**

- Cefnogi gweinyddi dynodiadau cynlluniau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI a choladu gwybodaeth ar gyfer archwilio a gwerthuso

- Cysylltu â'r rhai sydd dan gontract i draddodi ardystiadau'r Cynlluniau PGI.
- Adolygu proses gyfredol y cynllun, gan nodi cyfleoedd effeithlonrwydd o bosibl.
- Cynnal system rheoli cofnodion sydd yn gywir, effeithiol a chyfamserol.
- Bod yn gyfrifol am brosesu data/mewnbwn effeithlon a chywir.

## Gwybodaeth a Sgiliau

| Ffactor | Meini prawf hanfodol | Meini prawf manteisiol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | Gwybodaeth am y sector bwyd-amaeth yng Nghymru neu ddiwydiannau cysylltiedig |
| | | |
| **Sgil a Phrofiad** | Gwybodaeth a phrofiad o systemau rheoli cofnodion<br><br>Profiad o ddefnyddio pecynnau Microsoft gan gynnwys Word, Outlook ac Excel. | |
| | | |
| **Nodweddion Personol** | Yn frwdfrydig a rhagweithiol, gyda'r gallu i reoli tasgau lluosog<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal ag yn rhan o dîm. | Yn feddyliwr creadigol gyda pharodrwydd i ddysgu a datblygu sgiliau newydd ac ymdopi â therfynau amser. |